



Eich llais mewn iechyd | Your voice in health
a gofal cymdeithasol | and social care

ADRODDIAD YMGYSYLLTU LLAIS RHANBARTH GWENT – PROFIAD CLEIFION Y GAEAF.

MAI 2024



**Profiadau pobl o gael mynediad at ofal a
thriniaeth mewn Uned Mân Anafiadau neu Adran
Achosion Brys yng Ngwent**

Fformatau hygyrch

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

Cysylltwch â ni os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat ac/neu iaith arall, os gwelwch yn dda. Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa.

01633 838516

gwentenquiries@llaiscymru.org

Llais Rhanbarth Gwent,
Tŷ Rhaglan,
Clôs William Brown
Cwmbrân
NP44 3AB

www.llaiswales.org

www.llaiscymru.org

Ynglŷn â Llais.....	4
Cefndir.....	5
Yr hyn a glywsom.....	7
Cipolwg.....	7
Crynodeb o'r atborth.....	9
Sylwadau	13
Cyflwyno achosion.....	18
Diolchiadau.....	19
Atodiad 1 – Canlyniadau'r Arolwg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	20
Atodiad 2 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.....	24
Atborth.....	25
Manylion cyswllt.....	26





Credwn mewn Cymru iachach lle mae pobl yn cael y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnynt, mewn ffordd sy'n gweithio orau iddynt.

Rydym yma i ddeall eich barn a'ch profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol, ac i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio'ch atborth i lunio'ch gwasanaethau.

Rydym yn chwilio am straeon da a drwg, fel ein bod yn deall yr hyn sy'n gweithio'n dda a sut y gallai fod angen i wasanaethau wella.

Rydym yn ceisio siarad yn arbennig â'r rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Rydym hefyd yn siarad â phobl am eu barn a'u profiadau trwy gynnal digwyddiadau yn eich cymunedau lleol, neu ymweld â chi ble bynnag yr ydych yn derbyn eich gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol.


Rydym yn gweithio hefyd gyda grwpiau cymunedol a grwpiau â diddordeb, ac yn unol â mentrau cenedlaethol i gasglu barn pobl.

A phan fo pethau'n mynd o chwith, rydym yn eich helpu i wneud cwyn.

Ceir 7 Rhanbarth Llais yng Nghymru. Mae pob un yn cynrychioli llais y "claf a'r cyhoedd" mewn gwahanol rannau o Gymru.

RHANBARTH AU LLAIS

- CAERDYDD A'R FRO
- CASTELL-NEDD PORT TALBOT & ABERTAWE
- CWM TAF MORGANNWG
- GOGLEDD CYMRU
- GORLLEWIN CYMRU
- GWENT
- POWYS





Drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio'r talfyriadau neu'r ffurfiau byr canlynol, felly rydym wedi eu rhestru er hwylustod:

ED	=	Adran Achosion Brys
MIUs	=	Unedau Mân Anafiadau
GUH	=	Ysbyty Athrofaol y Faenor
RGH	=	Ysbyty Brenhinol Gwent
NHH	=	Ysbyty Nevill Hall
YAB	=	Ysbyty Aneurin Bevan
YYF	=	Ysbyty Ystrad Fawr
ARA	=	Ardal Rhyddhau Aciwt

Yn ystod misoedd y gaeaf, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn profi pwysau mawr yn yr Adran Achosion Brys a'r Unedau Mân Anafiadau, a all effeithio ar brofiadau pobl o gael mynediad at ofal.

Mae pedair Uned Mân Anafiadau ac un Adran Achosion Brys yng Ngwent:

Ysbyty Nevill Hall, Y Fenni	=	Uned Mân Anafiadau
Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd	=	Uned Mân Anafiadau
Ysbyty Aneurin Bevan, Glyn Ebwy	=	Uned Mân Anafiadau
Ysbyty Ystrad Fawr, Ystrad Mynach	=	Uned Mân Anafiadau
Ysbyty Athrofaol y Faenor, Torfaen	=	Adran Achosion Brys

Un o'n blaenoriaethau arbennig yng Ngwent yw darganfod profiadau pobl o 'Gael gofal yn gyflym pan fyddwch ei angen' – felly, fe wnaethom benderfynu gofyn i bobl ddweud wrthym beth oedd eu profiad wrth

fynychu Uned Mân Anafiadau neu Adran Achosion Brys. Fe wnaethom roi pethau i bobl eu hystyried wrth roi atborth i ni megis:

- Amseroedd aros
- Staff
- Y gofal a'r driniaeth a gafwyd
- Cysur
- Profiadau da

Er mwyn rhoi cyfle i bobl ddweud wrthym am eu profiadau, fe wnaethom ddylunio cerdyn post atborth, sydd i'w weld isod:



Gallai pobl roi atborth ar-lein hefyd trwy sganio'r Côd QR ar y cerdyn post neu'r poster.

Fe wnaethom gysylltu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ddweud wrthynt am ein prosiect ac y byddai ein gwirfoddolwyr yn mynd i bob Uned Mân Anafiadau ac Adran Achosion Brys, o bryd i'w gilydd dros bum wythnos.

Cytunodd staff yn yr Unedau Mân Anafiadau a'r Adran Achosion Brys i ni ddosbarthu'r eitemau canlynol iddynt, i'w harddangos yn briodol er mwyn caniatáu i bobl roi eu hatborth:

- Cardiau post Cymraeg a Saesneg.
- Poster i Cymraeg a Saesneg i hysbysebu ein cerdyn post.
- "Blwch post" y gallai pobl ei ddefnyddio i ddychwelyd eu cerdyn post gorffenedig.
- Pinnau ysgrifennu Llais ac amlenni rhagdal i ddychwelyd cardiau post atom yn uniongyrchol.

Aeth y prosiect hwn yn fyw ar 8 Ionawr 2024, a daeth i ben ar 16 Chwefror 2024. Roedd pobl yn gallu rhoi atborth yn ystod y cyfnod hwn.



Cymerodd 172 o bobl yr amser i ddweud wrthym am eu profiadau o gael mynediad at ofal a thriniaeth mewn Uned Mân Anafiadau neu Adran Achosion Brys yng Ngwent.

Isod ceir dadansoddiad o'r ymatebion a gawsom gan bob ysbyty:

Lleoliad:	Nifer yr ymatebion:
NHH (MIU)	31
RGH (MIU)	32
YAB (MIU)	19
YYF (MIU)	29
GUH (ED)	58

Cipolwg:

Roedd problemau yn Adran Achosion Brys, Ysbyty Athrofaol y Faenor, yn amlwg. Dywedodd pobl wrthym am yr amseroedd aros hir yr oeddent yn eu hwynebu, yn ogystal â maint a chyflwr yr ardal aros. Dywedodd gwirfoddolwyr a fynychodd yr adran wrthym fod yn rhaid i bobl eistedd yn agos iawn at ei gilydd, tra bod eraill yn eistedd ar y llawr oherwydd diffyg lle. Roedd pobl mewn cadeiriau olwyn yn ei chael hi'n anodd symud neu aros yn yr ardal.

Yn ystod un ymweliad, dywedodd pobl wrth ein gwirfoddolwyr eu bod wedi bod yn yr ardal aros ers y noson flaenorol, a'u bod yn cael trafferth cysgu ar y cadeiriau caled.

"Mae'r cadeiriau yn yr ystafell aros yn anghyfforddus ac nid oedd lle i gadeiriau olwyn."

Dyweddodd un person wrthym mai dim ond unwaith yr oedd yr adran wedi cael ei glanhau tra y bu yn yr uned, ac roedd ganddo bryderon am agwedd y staff.

“A dweud y gwir, dw i’n ystyried y ffaith mai dim ond unwaith yn unig y cafodd yr adran Damweiniau ac Achosion Brys ei glanhau tra y bues i yn Y Faenor, ac agwedd y staff, yn ffiacidd. Nid yw’n ymddangos bod y staff yn poeni dim am y cleifion, gan na roddwyd unrhyw feddyginiaeth lleddfdu poen i mi, ac roedd y staff yn y dderbynfa’n troelli o gwmpas ar eu cadeiriau gan chwerthin a hidio dim”.

Dyweddodd pobl a fynychodd Uned Mân Anafiadau wrthym eu bod yn teimlo bod eu profiad yn bositif, fodd bynnag, tynnwyd ein sylw at ddiffyg arwyddion clir yn Ysbyty Ystrad Fawr ac Ysbyty Nevill Hall.

“Fe wnaethom dreulio 20 munud yn cerdded o amgylch y prif ysbyty (Ysbyty Nevill Hall) yn methu dod o hyd i’r fynedfa i’r uned mân anafiadau. Nid oedd unrhyw arwyddion yn cyfeirio cleifion yn y prif adeilad, ac aelod o’r cyhoedd wnaeth ein cyfeirio ni tu allan yn y diwedd. Wrth olrhain ein camau ar ôl yr ymgynghoriad, aethom i mewn i’r prif adeilad wrth y fynedfa / allanfa ThG. Dylai fod arwydd yn cyfeirio cleifion ar hyd y llwybr hwn os ydynt yn y prif adeilad. Mae gan bob ysbyty rwyf wedi gweithio ynddo yn Lloegr arwyddion yn eu prif adeiladau, yn cyfeirio cleifion at adrannau Damweiniau ac Achosion Brys / unedau Mân Anafiadau. Roedd ein profiad clinigol yn dda iawn. Fe wnaethom ddefnyddio gwasanaeth Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau ar gyfer fy merch â haint y llwybr wrinol (UTI). Roedd yn effeithlon, yn hawdd ei ddefnyddio, ac yn wasanaeth y byddwn yn hapus i’w ddefnyddio eto yn y dyfodol. Diolch.”

Pan fynychodd ein gwirfoddolwyr YYF, nodwyd bod yr arwyddion ar gyfer yr MIU yn wael. Roedd yna ddarn o bapur A4, a oedd yn rhoi cyfarwyddiadau i’r Uned Mân Anafiadau a’r Uned Asesu Meddygol.

Yn ystod y prosiect hwn, cawsom atborth dienw gan staff am bryderon diogelwch yn Ysbyty Ystrad Fawr. Codwyd y materion hyn yn uniongyrchol gyda’r bwrdd iechyd ar ôl derbyn yr wybodaeth.

Rhoddodd y mwyafrif o bobl atborth cadarnhaol am y staff a welsant mewn MIU neu ED.

“Staff cwrtais a chymwynasgar iawn.” – **Ysbyty Nevill Hall**

“Staff da, triniaeth dda, cyngor da a staff hyfryd.” – **Ysbyty Brenhinol Gwent**

“Derbynyddes gyfeillgar iawn. Staff cyfeillgar a chymwynasgar.” – **Ysbyty Aneurin Bevan**

“Cefais fy ngweld yn gyflym iawn ac roedd y gwasanaeth yn broffesiynol. Roedd y staff yn gwrtais a chymwynasgar iawn.” – **Ysbyty Ystrad Fawr**

“Mae’r ysbyty hwn wedi bod yn anhygoel, ac mae’r staff yn gyfeillgar a chymwynasgar iawn. Ni allwn ddiolch digon iddynt. Rydych chi i gyd yn gwneud gwaith gwych.” – **Ysbyty Athrofaol y Faenor**

Crynodeb o’r atborth:

Isod ceir crynodeb o atborth y bobl a fynychodd MIU neu ED yng Ngwent:

Ysbyty Nevill Hall (MIU)

Rhoddodd pobl atborth cadarnhaol am eu profiadau o gael mynediad at ofal a thriniaeth yn yr Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Nevill Hall.

Roedd dau berson yn teimlo fod angen mwy o arwyddion i ddod o hyd i’r Uned Mân Anafiadau. Dywedodd un person wrthym ei fod wedi treulio peth amser yn cerdded o amgylch y prif ysbyty yn methu dod o hyd i fynedfa’r uned. Roedd y person hwn yn teimlo y dylai fod arwyddion yn y prif adeilad, i gyfeirio pobl at yr uned.

“Mae angen cyfarwyddiadau. Roeddwn i’n mynd ar goll drwy’r amser. Neb i siarad ag ef.”

Roedd mwyafrif y bobl yn fodlon ar yr amseroedd aros a brofwyd ganddynt tra yn yr uned.

“Mae wedi bod yn effeithlon iawn ac yn gyflym, heb fawr ddim aros. Cefais belydr-x ar unwaith.”

Ysbyty Brenhinol Gwent (MIU)

Roedd pobl yn teimlo bod yr amseroedd aros yn yr Uned Mân Anafiadau yn "dda." Dywedodd rhai pobl wrthym eu bod yn teimlo bod hyn oherwydd bod Ysbyty Athrofaol y Faenor hefyd ar gael i bobl ei fynychu.

"Mae amseroedd aros wedi gwella ers agor y Faenor. Mae staff mor gymwynasgar ag y gallant fod. Mae meddygon a nyrsys yn ymdrin â materion yn effeithlon. Profiad da, ar y cyfan."

"Mae'n ymddangos yn llawer cyflymach nawr bod y Faenor ar agor. Cefais fy ngweld yn syth ac yna es i am belydr-x. Cefais sylw 10 munud ar ôl i mi gyrraedd".

Dywedodd rhai pobl wrthym eu bod wedi cael eu hailgyfeirio o'r Adran Achosion Brys yn GUH, i fynd i Uned Mân Anafiadau RGH yn lle hynny. Soniodd y bobl a ddywedodd hyn wrthym am brofiadau cadarnhaol.

"Aethom i GUH i ddechrau, lle cawsom sylw o fewn hanner awr, ac yna cawsom ein hailgyfeirio i Uned Mân Anafiadau RGH, lle cawsom ein brysbennu o fewn 15 munud. Roedd y staff i gyd yn groesawgar a chysurlon iawn, ac yn wych gyda phlant."

"Roedd brysbennu yn y Faenor yn gyflym iawn ac yn ddymunol wrth asesu fy mhlentyn. Gan nad oedd ganddynt unrhyw bryderon brys, fe wnaethant ein hanfon i Ysbyty Gwent, yn hytrach nag aros yno am 4 awr. Rydym wedi bod yn falch o'r cymorth heddiw."

"Roeddwn i wedi bod yn aros am awr i gael fy mrysbennu yn y Faenor, ond i gael gwybod bod angen i mi fynd i Ysbyty Gwent. Gallai hyn fod wedi bod yn symlach, gan nad oedd gennyf unrhyw broblem gyda mynd i Ysbyty Gwent. Ciw anferth yn y Faenor."

Ysbyty Aneurin Bevan (MIU)

Dywedodd pobl wrthym am eu profiadau cadarnhaol o fynychu'r MIU.

"Rwy'n ymweld heddiw am i mi gwmpo allan o'r bath a llithro gan anafu fy arddwrn. Roedd y staff yn wych, gwasanaeth ardderchog ac

effeithlon iawn. Ni allwn weld bai o gwbl. Yn falch iawn gyda'r gwasanaeth. Diolch."

"Does gen i ddim cwynion ynglŷn â'r ffordd ges i fy nhrin. Cafodd fy anaf ei drin yn gyflym a chefais fy anfon adref."

Dyweddodd rhai pobl wrthym eu bod wedi aros cryn amser i gael triniaeth yn yr uned.

"Rydw i wedi bod yma yn yr Uned Mân Anafiadau am 3 awr, a heb hyd yn oed cael pelydr-x. Cefais fy ngweld tua 3 awr yn ôl ac rwy'n aros am ddiweddariad".

"Cefais fewngofnodi'n gyflym, ond bu'n rhaid aros am amser hir, gyda dim ond 3 o bobl yn yr ystafell aros".

Ysbyty Ystrad Fawr (MIU)

Ar y cyfan, rhoddodd pobl atborth cadarnhaol am eu profiad yn YYF. Dywedodd un person wrthym fod y gwasanaeth a dderbyniodd yn "wych."

"Roedd yn ffantastig. Roedd y nyrsys yn anhygoel. Yr hyn a wnaeth ein helpu ni'n fawr hefyd oedd bod yr amser aros yn cael ei ddiweddarau a nifer y cleifion sy'n aros wedi'i restru ar y wefan, felly roeddem yn gwybod cyn i ni adael pa mor hir y byddai'n rhaid i ni aros o bosib. Bu'n rhaid aros 2 awr i gyd, a oedd yn iawn. Roedd y gwasanaeth yn wych gan y staff!"

Fodd bynnag, roedd rhai sylwadau am agwedd staff yn yr uned.

"Roedd yn hawdd iawn mewngofnodi, ac roedd y derbynnydd yn hyfryd a chyfeillgar. Roedd y nyrs yn anwybodus, yn ddigywilydd ac yn swta, ac ni wnaeth esbonio beth oedd yn digwydd. Ceisiwch wrando ar y cleifion."

"Roedd y derbynnydd (gwrywaidd) yn anghwrtais – dywedodd wrth fy mab awtistig i fod yn amyneddgar."

Tra bod ein gwirfoddolwyr yn siarad â phobl oedd yn aros yn yr uned hon, nodwyd bod rhai pobl yn mynychu Ysbyty Tywysog Siarl i

ddechrau, gan ei fod yn fwy lleol iddyn nhw. Fodd bynnag, cawsant eu hailgyfeirio i fynychu YYF gan y byddent yn cael eu "gweld yn gynt."

Ysbyty Athrofaol y Faenor (ED)

Fel y soniwyd yn flaenorol, mae problemau gyda'r amseroedd aros a'r anghysur a brofwyd gan bobl wrth aros yn yr Adran Achosion Brys. Fodd bynnag, rhoddodd pobl sylwadau cadarnhaol am eu profiadau.

"Ddes i mewn ar y dydd Mercher, ffoniais i 999, daeth ambiwlans a pharafeddyg a chefais fy nghludo i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Bu'n rhaid aros 6 awr, a chefais fy hydradu trwy ddrip. Rwy'n aros i fynd i Nevill Hall. Mae'r staff yn dda iawn, yn wybodus, ac rwy'n hapus gyda phopeth."

"Ddes i mewn yn y car, yn syth i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Rwy'n gyfforddus, ac wedi cael bwyd a diod."

"Fe wnaeth y gwasanaeth ambiwlans dalu tacsî i ddod â chleifion i'r Faenor. Gwnaed ECG a phrawf gwaed o fewn 15 munud i mi gyrraedd. Rwy'n aros i'r meddyg i ddod i'm gweld a rhoi'r canlyniadau."

Aeth ein gwirfoddolwyr i'r Ardal Rhyddhau Aciwt (ARA) hefyd, sy'n gyfleuster dros dro ac sydd wedi'i leoli ychydig y tu allan i'r Adran Achosion Brys mewn adeilad dros dro.

Pwrpas yr ARA yw helpu i drosglwyddo cleifion i'r Adran Achosion Brys o ambiwlansys. Caiff yr ARA ei staffio ar y cyd rhwng staff yr Adran Achosion Brys a staff clinigol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru ac mae'n weithredol 24/7.

Siaradodd ein gwirfoddolwyr â phobl yn yr ARA a dywedwyd wrthym fod pobl yn hapus gyda'r gofal a gawsant, yn ogystal â'r amgylchedd a'r bwyd.

Gwnaed sylwadau gan staff yr uned a oedd yn manylu ar y pellter o'r Adran Achosion Brys i'r ARA, ac roeddent yn teimlo nad oedd yr uned yn addas i'w defnyddio fel y bwriadwyd.



Isod mae rhai sylwadau a gawsom gan bobl a lenwodd ein cerdyn post atborth.

Ysbyty Nevill Hall:

“Da iawn.”

“Staff cwrtais a chymwynasgar iawn.”

“Fe wnaeth fy mab ddatgymalu ei ysgwydd wrth chwarae pêl-droed. Cyrhaeddodd ni'r adran tua 8yh., a dywedwyd wrthym nad oedd Meddyg ar gael i allu ei 'rhoi yn ôl yn ei lle!'. Fe wnaethon nhw belydr-x i gadarnhau fod yr ysgwydd wedi datgymalu, a rhoddwyd rhywfaint o gyffuriau lleddfu poen (dim help yn anffodus 🙄) Yna, bu'n rhaid i mi yrru fy mab i'r Faenor.”

“Bu'n rhaid aros 3 awr i gael ychydig o bwythau ar gyfer briw ar yr wyneb. Dywedwyd mai dim ond 1 nyrs oedd ar ddyletswydd, a dyna pam y bu'n rhaid aros yn hir”.

“Fe es i â fy nai yno heddiw; roedd y staff yn ffantastig o'r dechrau i'r diwedd. Mae'n drueni na allwch chi roi'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys (difrifol a mân) yn ôl yn Nevill Hall, gan fod cymaint o bobl o'r pen hwn yn methu cyrraedd y Faenor, ond yn gallu cyrraedd Nevill Hall yn hawdd. Mae'n drueni gan fy mod i wastad yn cael triniaeth wych yno, ond yn lle hynny, os oes angen i mi fynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, rydw i'n mynd i Ysbyty Tywysog Siarl nawr am ei fod yn agosach.”

“Es i i'r Uned Mân Anafiadau (15.1.24). Roeddwn i wedi cwmpo gan anafu fy mhen-glin. Cyrhaeddais i am 9.40yb., a chefais sylw am 9.50yb., ac yna fy anfon am belydr-x yn syth. Roedd y radiograffydd yn broffesiynol iawn, ac yna cefais fy anfon at nyrs, a roddodd yr wybodaeth angenrheidiol i mi am feddyginiaethau ac ymarfer corff. Gwasanaeth gwych.”

"Rwy'n teimlo bod yr amseroedd aros yn rhy hir, ond mae'r staff yn hyfryd ac yn gymwynasgar."

"Mae arnom angen Uned Mân Anafiadau yn Nevill Hall. Maen nhw'n anhygoel, mae'r staff yn anhygoel."

"Cefais sylw'n gyflym iawn a fy nghymryd am belydr-x. Roedd y staff yn gwrtais iawn ac, ar y cyfan, rwy'n hapus iawn gyda fy mhrofiad yma heno."

Ysbyty Brenhinol Gwent:

"Derbynnydd hyfryd gyda llais clir. Gallai'r cyfarwyddiadau / arwyddion i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys fod yn fwy clir. Cefais driniaeth yn gyflym a heddiw yn gynnar yn y bore, nid dyma'r achos fel arfer".

"Cyflym a Chyfeillgar".

"Staff da, triniaeth dda, cyngor da a staff hyfryd".

"Gwelais i'r meddyg erbyn 9yb., a nawr rwy'n aros am belydr-x. Mae'r staff yn iawn, yn dangos diddordeb ac yn gynorthwyol. Fe wnaethant esbonio'r hyn fyddan nhw'n ei wneud. Dŵr ar gael. Profiad da".

"Digonedd o seddi. Digonedd o beiriannau gwerthu".

"Es i â fy wyres am ei bod wedi anafu ei throed – gwelodd ffisio. Roedd un yn gwrtais iawn. Nid oedd y llall cystal, ond roedd gweddill y staff yn hyfryd. Dylai Ysbyty Brenhinol Gwent wedi aros yma a dweud y gwir, fel yr ysbyty yr oedd ac y bu erioed. Dylid fod wedi prynu tir whiteheads ac ychwanegu at y safle – mor siomedig yn y Faenor".

"Gwasanaeth prydlon fel arfer, ac mae'r staff bob amser yn gyfeillgar. Erioed wedi cael unrhyw broblemau o ran amseroedd aros. Byddai'n braf cael ychydig mwy o gadeiriau cwiltiog, gan eu bod yn galed iawn ar hyn o bryd. Mae'r tymheredd yn iawn".

"Roeddwn i wedi bod yn aros am awr i gael fy mrysbennu yn y Faenor, ac yna cefais wybod bod angen i mi fynd i Ysbyty Gwent. Gallai hyn wedi bod yn symlach, gan nad oedd gennyf broblem gyda mynd i Ysbyty Gwent. Ciw anferth yn y Faenor".

“Fe es i i’r ysbyty am fy mod wedi llosgi. Nid oeddwn wedi bod o’r blaen, felly cefais fy nghofrestru yn y dderbynfa. Cefais fy ngweld yn gyflym iawn y tro cyntaf, i asesu beth oedd ei angen. Yna cefais fy ngweld tu awr yn ddiweddarach, pan gafodd fy nghlwyf ei drin a’i lanhau. Roedd y meddyg yn gyfeillgar ac yn gymwynasgar, a gwnaeth apwyntiad dilynol i mi newid fy nghorchudd”.

“Gweddol hawdd i barcio, roedd y staff yn gymwynasgar a chyfeillgar, ystafell aros gyfforddus”.

Ysbyty Aneurin Bevan:

“Staff cyfeillgar a chymwynasgar. Cefais belydr-x yn gyflym. Roeddwn i’n oer, gan fod y cadeiriau yn yr ystafell aros yn wynebu’r prif ddrysau. Roedd staff y dderbynfa’n ymddangos yn ddi-flewyn-ar-dafod. Hoffwn fedru gweld yr amseroedd aros”.

“Profiad da, heb orfod aros yn rhy hir, ac roedd y staff yn ddymunol”.

“Profiad da iawn – heb orfod aros yn rhy hir. Cefais fy asesu ac yna bu’n rhaid i mi aros tua 30 munud am driniaeth. Roedd y staff yn dda”.

“Ymwelais ym mis Rhagfyr – profiad positif iawn. Amseroedd aros am fân anafiadau a phelydr-x yn fyr iawn. Ni allai staff fod wedi bod yn fwy cymwynasgar a charedig”.

“Gwasanaeth ardderchog – cyfeillgar a chymwynasgar iawn. Ysbyty hyfryd”.

“Arhosais i am gyfnod byr, a chefais fy ngweld gan nyrs brysbennu. Fe wnaeth esbonio popeth – bues i’n aros am gyfnod byr wedyn i weld ymarferydd nyrsio. Cafodd fy anaf ei drin yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys gan staff cyfeillgar da iawn. Gwasanaeth da, a gwybodaeth dda am wasanaethau’r Adran Damweiniau ac Achosion Brys.

Nid oes gan fy meddygfa ar Stryd y Bont lifft sy’n gweithio i fyny i’r feddygfa, y deintydd a’r gwasanaethau cymdeithasol, ac mae wedi torri ers mis Awst. Rwy’n anabl ac rydw i angen defnyddio’r lifft”.

“Derbynnydd cyfeillgar iawn. Staff cyfeillgar a chymwynasgar”.

“Cefais fewngofnodi’n gyflym, ond yna bu’n rhaid aros yn hir, gyda dim ond 3 o bobl yn yr ystafell aros”.

“Fe arhoson ni gryn dipyn ar ôl cael ein gweld gyntaf ac yna ychydig mwy – Gallai fod yna ardal i ddiddanu’r plant, teledu ayb. Hanfodion a fyddai’n gwneud pethau’n haws i rieni pan fydd plant yn diflasu ac yn bigog”.

“Rydw i wedi bod yma yn yr Uned Mân Anafiadau am 3 awr a heb gael pelydr-x hyd yn oed. Cefais fy ngweld tua 3 awr yn ôl, ac rwy’n aros am ddiweddariad”.

Ysbyty Ystrad Fawr:

“Eithaf araf ond mae’r staff yn anhygoel”.

“Yn hollol berffaith, mor gyflym, a hawdd, a heb orfod aros yn hir i gael fy ngweld. Wedi creu argraff fawr”.

“Ddim yn ddrwg – wedi bod yn aros tua 2 awr. Mae’r staff yn gymwynasgar a chyfeillgar iawn”.

“Gwasanaeth ardderchog yn yr ysbyty heddiw. Es i am belydr-x ac yna cefais fy anfon i’r Uned Mân Anafiadau. Yma, dywedwyd wrthyf fy mod wedi torri asgwrn yn fy arddwrn. Rhoddwyd cyngor a gwasanaeth ardderchog”.

“Cwmpais ar fy mhen-glin, felly es i gael pelydr-x. Cefais weld rhywun am y tro cyntaf a chael pelydr-x yn gyflym, ond bues i’n aros am dros 1.5 awr i weld rhywun i gael y canlyniadau. Roedd y profiad cyffredinol yn iawn, ond rwy’n meddwl y gallai’r canlyniadau gael eu rhoi’n gyflymach, i leihau amseroedd aros a chael pobl allan yn gynt”.

“Cefais fy ngweld yn gyflym iawn, ac roedd y gwasanaeth yn broffesiynol iawn. Roedd y staff yn gwrtais a chymwynasgar iawn”.

“Da iawn ac rwy’n hapus iawn gyda’r gofal meddygol. Dydw i ddim yn hoffi’r cwestiynau gwirion sy’n gofyn p’un ai dyn neu fenyw ydw i. Menyw ydw i a chefais fy ngeni’n ferch, ac mae gwneud hyn yn wastraff arian i’r GIG”.

“Hapus gyda’r gwasanaeth, ac roedd y staff yn gwrtais a chymwynasgar”.

“Nid oedd yr amser aros yn rhy ddrwg. Roedd y staff – a’r gofal a’r driniaeth yn dda iawn. Mynd gyda fy ngwraig oeddwn i, ond roedd y gwasanaeth yn dda iawn. Ar y cyfan, roedd y profiad yn dda iawn, o ystyried mor brysur y maen nhw i gyd. Diolch GIG”.

“Amseroedd aros hir”.

Ysbyty Athrofaol y Faenor:

“Staff cyfeillgar, bu’n rhaid aros am ychydig, ond roedd y ciw yn symud drwy’r amser”.

“Cefais fy syfrdanu gan ba mor hir oedd yr amser aros, o gael prawf gwaed i weld meddyg. Cefais brawf gwaed am 8yh., – mae’n 3.40yb., ac rwy’n dal i aros”.

“Ddes i mewn dydd Sul, am fod ffrind i mi yn y proffesiwn meddygol yn meddwl efallai bod gen i sepsis. Ffoniais i 999 ac o fewn 20 munud fe gyrhaeddodd ymatebydd cyflym. Yna daeth ambiwlans ac roeddwn i yn yr uned hon fore dydd Llun. Roedd y cyfathrebu’n dda ac maen nhw’n gwneud profion arnaf. Maen nhw’n rhoi’r diweddaraf i mi, o ran pryd fydd gwely ar gael ar ward y galon. Dydw i ddim yn teimlo fel bwyta ar hyn o bryd, ond rwy’n llwyddo i fwyta ychydig bach. Fe ddes i yma ddechrau’r flwyddyn llynedd, a dywedwyd wrthyf fod gen i firws, ond cefais gamddiagnosis gan y meddyg. Cefais fy anfon am belydr-x ac roedd gen i haint gwael ar fy ysgyfaint”.

“Profiad ffantastig, rwy’n sâl ers y Nadolig. Ddes i yn y car a rhoddwyd troli i mi o fewn 20 munud. Rydw i yma ers dydd Gwener. Mae meddyg ymgynghorol yn dod i’m gweld yn rheolaidd, ac rwy’n cael gwybodaeth am fy ngofal. Rwy’n hapus gyda phopeth. Fe gefais brofiad gwael y llynedd, gan nad oedd unrhyw feddyg ar gael pan ddes i mewn wedi torri 5 o asennau, a bu’n rhaid i mi aros 17 awr. Rhoddwyd dewisiadau i mi o ran bwyd, ac rwy’n cael fy hydradu’n dda gyda’r diodydd a gynigir i mi”.

“Cefais fy mewngofnodi’n gyflym iawn, a chefais weld nyrs a chael pelydr-x yn gyflym iawn. Roedd pob aelod o staff a welais yn broffesiynol a chwrtais iawn, ac ni allwn weld bai ar y gwasanaeth a gefais yma heddiw o gwbl. Cymaint gwell nag ymweliadau blaenorol â’r hen Adran Damweiniau ac Achosion Brys”.

“Mae’r ysbyty’n iawn, maen nhw’n gwneud eu gorau yno. Mae amseroedd aros yn hir weithiau, ond ni ellir help am hynny. Rwy’n ddiolchgar iawn i’r GIG”.

“Ffoniais i 999 am ambiwlans ddoe – fe gymerodd 2 awr o Abertyleri. Aethant â mi’n syth i’r adran ddadebru, lle chefais ofal gan feddygon / meddygon ymgynghorol, ECG, Pelydr-x a sylw’n gyflym. Arhosais yma drwy’r nos, ac mae’r gwely’n gyfforddus. Mae’r bwyd yn ffein. Galla’i ddim ffeindio bai o gwbl. Aros am gyffuriau er mwyn cael mynd adref”.

“Mae fy mhrofiad gyda staff wedi bod yn hyfryd ac yn llyfn, ond hoffwn i’r ysbyty weithio ar amseroedd aros y claf. Rydw i wedi treulio dros 14 awr yn aros i gael cyfres o brofion a chael fy nhrin. Rwy’n awgrymu bod yr ysbyty’n ymchwilio i hynny”.

“Mae diffyg cyfathrebu yn broblem. Mae’r amseroedd aros yn hir iawn. Roeddwn i’n gwybod i ba ward yr oedd angen i mi fynd, ond bu’n rhaid i fi aros oriau cyn iddynt gadarnhau hynny”.

“Amser aros hir iawn, a chyfleusterau anghyfforddus. Mae’r staff yn wych ac mae ganddynt dîm anhygoel. Yn bersonol, rwy’n credu bod cleifion yn aros amser hir iawn wrth fynd drwy ddrysau’r adran Damweiniau ac Achosion Brys, ac y dylid rhoi rhywbeth yn ei le i arbed amser ac arian ar draws y GIG, a sicrhau bod dinasyddion mewn angen yn cael gofal”.



Hoffai Llais Gwent wneud yr argymhellion neu'r "sylwadau" canlynol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – ar ran pobl a gymerodd yr amser i roi eu hatborth i ni.

Cyflwyno achos 1: Sylwadau cadarnhaol.

A fyddech cystal â rhannu'r sylwadau cadarnhaol a ddangosir drwy gydol yr adroddiad hwn â staff ar draws yr holl Unedau Mân Anafiadau a'r Adran Achosion Brys.

Cyflwyno achos 2: Arwyddion i'r Unedau Mân Anafiadau yn Ysbyty Ystrad Fawr ac Ysbyty Nevill Hall.

A fyddech cystal â nodi atborth pobl am yr arwyddion yn NHH ac YYF. A allech ddweud wrthym os oes arwyddion clir yn y ddau brif adeilad a all gyfeirio pobl at yr Unedau Mân Anafiadau.

Cyflwyno achos 3: Yr ardal aros yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor.

Rydym yn ymwybodol bod arian ychwanegol wedi'i fuddsoddi gan Lywodraeth Cymru¹ i ymestyn ac ad-drefnu rhannau o'r Adran Achosion Brys yn y Faenor.

- A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau i wneud y newidiadau hyn i'r Adran Achosion Brys?
- Yn y cyfamser, a oes unrhyw gynlluniau i wneud newidiadau i amodau ardal aros yr Adran Achosion Brys?

Cyflwyno achos 4: Yr Ardal Rhyddhau Aciwt.

¹ <https://www.gov.wales/more-14m-improve-emergency-department-grange-hospital>



A fyddech cystal â nodi'r sylwadau a wnaed gan staff am yr ARA ac a oedd yn addas i'w ddefnyddio fel y bwriadwyd. A allech chi hefyd roi diweddariad i ni ar sut mae'r ARA yn gweithredu i bobl?

Diolch i bawb a rodd o'u hamser i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni am gael mynediad at Uned Mân Anafiadau neu Adran Achosion Brys yng Ngwent.

Hoffem ddiolch hefyd i staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan am eu cefnogaeth i'n prosiect.

Rydym yn gobeithio y bydd yr atborth y mae pobl wedi cymryd amser i'w rannu, yn dylanwadu ar wasanaethau gofal iechyd i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei wneud yn dda – a gweithredu lle mae angen iddynt wneud cyn gynted ag y gallant i wella pethau.

Atodiad 1 – Canlyniadau'r Arolwg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Beth yw eich dewis iaith?	
Saesneg	Arall
108	3

Gyda pha ryw ydych chi'n uniaethu?				
Dyn/bachgen	Menyw/merch	Anneuaidd	Arall	Mae'n well gen i beidio â dweud
38	72	1		1

Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson traws?

Ydw	Nac ydw	Mae'n well gen i beidio â dweud
1	104	3

Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol?

Anrhywiol	Deurywiol	Hoyw	Lesbiaidd
5	1	4	3
Heterorywiol/Syth	Panrywiol	Arall	Mae'n well gen i beidio â dweud
92			6

Mis a Blwyddyn Geni

Ion	Chwef	Maw	Ebr	Mai	Meh
Gorff	Awst	Medi	Hydref	Tach	Rhag

Beth yw eich ethnigrwydd?

Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

Bangladeshaid	Tsieineaid	Indiaidd	Pacistanaid	Arall
---------------	------------	----------	-------------	-------

1			1	1
----------	--	--	----------	----------

Du neu Ddu Prydeinig		
Bangladeshaidd Tsieineaidd	Indiaidd Pacistanaidd	Arall
		2

Cymysg			
Asiaidd a Gwyn	Du Affricanaidd a Gwyn	Du Caribïaidd a Gwyn	Arall
1			

Gwyn			
Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig o Ogledd Iwerddon/Prydeinig	Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig	Gwyddelig	Arall
95		1	1

Grŵp Ethnig Arall			
Arabaid	Unrhyw un arall	Mae'n well gen i beidio â dweud	Arall
2		3	

Beth yw eich crefydd neu gred?

Bwdhaeth	Cristnogaeth	Hindwâeth	Islam	Iddewiaeth
	58		4	
Sikhiaeth	Anffyddiaeth	Dim crefydd	Mae'n well gen i beidio â dweud	Arall
		31	8	

Ydych chi'n ystyried bod gennych anabledd?

Ydw	Nac ydw	Mae'n well gen i beidio â dweud
16	78	8

Ydych chi'n gofalu am, neu'n rhoi unrhyw gymorth neu gefnogaeth i aelod o'r teulu, ffrind, neu gymydog oherwydd anabledd corfforol hirdymor, anhawster dysgu, salwch meddwl, neu broblemau sy'n gysylltiedig ag oedran?

Ydw	Nac ydw	Mae'n well gen i beidio â dweud
29	73	4

Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd neu a ydych chi wedi bod yn feichiog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Ydw	Nac ydw	Mae'n well gen i beidio â dweud
2	101	3

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich statws ariannol orau?

Mae gennyf fwy na digon ar gyfer angenrheidiau, a llawer iawn o incwm gwario, y gallaf ei gynilo neu ei wario ar bethau ychwanegol neu hamdden	9
--	----------

Mae gennyf fwy na digon ar gyfer angenrheidiau sylfaenol, a rhywfaint bach o incwm gwario, y gallaf ei gynilo neu ei wario ar bethau ychwanegol neu hamdden	34
Mae gen i ddim ond digon ar gyfer angenrheidiau a fawr ddim arall	33
Nid oes gennyf ddigon ar gyfer angenrheidiau ac weithiau rwy'n brin o arian	4
Nid wyf yn gwybod / mae'n well gen i beidio â dweud	24

Atodiad 2

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cwblhewch y tabl canlynol i nodi a fydd y grwpiau canlynol yn cael eu heffeithio'n andwyol, yn gadarnhaol, yn wahaniaethol gan bolisi/gweithgarwch/adroddiad Llais, neu na fydd yn cael unrhyw effaith o gwbl.

Effaith	Dim	Negyddo	Cadarnhaol	Sylwadau
Nodweddion gwarchoddedig				
Oedran	X			
Anabledd	X			
Rhyw	X			
Hil	X			
Crefydd / Credoau	X			
Cyfeiriadedd rhywiol	X			
Ailbennu rhywedd	X			
Priodas a phartneriaeth sifil	X			
Beichiogrwydd a mamolaeth	X			
Nodweddion eraill i'w hystyried				

Iaith Gymraeg			X	Mae adroddiadau ac arolygon ar gael ac yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog
Ieithoedd eraill		X		Gellir cyhoeddi adroddiadau ac arolygon mewn iaith ofynnol ar gais
Hawliau Dynol	X			
Lefel Tlodi	X			
Personau â dibynyddion	X			
Preswylfa wledig	X			
Cymunedau sipsiwn a theithwyr	X			
Yn ddigidol agored i niwed	X			

Asesiad risg.

A oes unrhyw risgiau'n deillio o weithredu'r polisi hwn? Amh
Pa fesurau sydd ar waith i reoli neu ddileu'r risgiau hyn? Amh
<p>Iaith Gymraeg Mae'r ddogfen/polisi/adroddiad hwn wedi'i asesu yn unol â gofynion Iaith Gymraeg ar gyfer safonau: 37,38 69,70,71</p> <p>Wrth benderfynu ar effaith, gallwn ddangos tystiolaeth o'r canlynol: Mae holl ddogfennau cyhoeddus Llais ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae Llais yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus, ac yn eu nodi fel rhai cadarnhaol ar gyfer cyfieithiadau Cymraeg.</p> <p>Canlyniad Effaith gadarnhaol –</p>

Safonau 37, 38 – Mae'r holl ddogfennau cyhoeddus yn cael eu paratoi a'u cyhoeddi'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Safonau 69-71 – Rydym yn cynnal Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus, ac yn eu nodi fel rhai cadarnhaol ar gyfer cyfieithiadau Cymraeg.

Effaith Negyddol – Dim

ATBORTH

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallem fod wedi'i wella, fel y gallwn ei ddefnyddio i wneud ein gwaith yn y dyfodol yn well.

MANYLION CYSWLLT

LLAIS RHANBARTH GWENT,
Tŷ RHAGLAN,
PARC BUSNES LLANTARNAM,
CWMBRÂN,
NP44 3AB.

FFÔN: 01633 838516
EBOST: GWENTENQUIRIES@LLAISCYMRU.ORG
GWEFAN: WWW.LLAISCYMRU.ORG
FACEBOOK: @GWENTLLAIS
TWITTER: LLAIS_WALES